

Cyflwyno cwynion am Gyfarwyddwr Cyffredinol yr IOPC, yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol

Cyflwyniad

Mae amodau a thelerau'r gwasanaeth ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol (DG), yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol (SID) a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol (NEDs) yn mynnu safonau uchel o ymddygiad yn unol ag Argymhellion Adroddiad Nolan, 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus'. Sef:

- **Anhunanoldeb:** dylai'r rhai a benodir ymddwyn er lles y cyhoedd bob amser. Ni ddylent wneud hynny er mwyn elwa'n bersonol nac er budd eu teuluoedd a'u ffrindiau, boed yn ariannol nac mewn unrhyw fodd arall.
- **Didwylledd:** ni ddylai'r rhai a benodir roddi eu hunain dan unrhyw ymrwymiad ariannol neu o fath arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.
- **Gwrthrychedd:** wrth gyflawni gwaith cyhoeddus, gan gynnwys dyfarnu cytundebau, neu argymhell gwobrwyon a buddion i unigolion, dylai'r rhai a benodir wneud penderfyniad ar sail haeddiant.
- **Atebolrwydd:** mae'r rhai a benodir yn atebol am eu penderfyniadau a'u gwaith er budd y cyhoedd a rhaid iddynt fod yn barod i gael eu craffu yn unol â'r hyn sy'n briodol yn eu swydd.
- **Tryloywder:** dylai'r rhai a benodir fod mor agored â phosib ynglŷn â'r holl benderfyniadau a wnânt ac wrth eu gwaith. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a chyfyngu ar y wybodaeth a ryddheir dim ond pan fydd hynny yn amlwg er lles y cyhoedd.
- **Gonestrwydd:** mae gan y rhai a benodir ddyletswydd i ddatgan unrhyw ddi-ddordebau personol ynglŷn â'u dyletswyddau cyhoeddus gan gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a gyfyd mewn modd sy'n diogelu lles y cyhoedd.
- **Arweinyddiaeth:** dylai'r rhai a benodir hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth a thrwy osod esiampol.

Hyd a lled y polisi hwn

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y weithdrefn a ddilynwn pan dderbynnir cwynion ynglŷn ag ymddygiad ein DG, SID neu NEDs. Diffinnir 'ymddygiad' yn y cyd-destun hwn fel gweithredoedd neu ddiffyg gweithredu sy'n tramgwyddo safonau'r ymddygiad a ddiffinnir yn egwyddorion Nolan.

Mae'r weithdrefn hon yn ymwneud â chwynion ynglŷn ag ymddygiad y DG, SID neu'r NED pan fydd honiad/au yn cynnwys tramgwyddo'r safonau a osodir yn yr amodau a thelerau ynghlwm â phenodi'r swydd.

Mae ein polisi 'Rhoi adborth a chyflwyno cwynion am Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu' yn berthnasol i aelodau o'r Bwrdd Gweithredol (ac eithrio DG yr IOPC) a phob aelod arall o staff.

Ymdrin â chwynion

Derbyn cwyn

Fel cam cyntaf, gallwch gyflwyno cwynion am y DG, SID neu'r NEDs i'r Tîm Ansawdd a Gwella Gwasanaeth. Gallwch ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- e-bostiwch ni ar feedback@policeconduct.gov.uk
- ffoniwch ein prif switsfwrdd ar 0300 020 0096
- ffoniwch ni ar 020 7166 3261 a gadewch neges gyda'ch manylion cyswllt a'ch adborth. Cewch alwad yn ôl gennym
- ysgrifennwch at:
 - Tîm Ansawdd a Gwella Gwasanaeth
 - Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
 - Blwch Post 473
 - Sale
 - M33 0BW

Rydym yn croesawu galwadau ffôn, negeseuon e-bost a llythyrau yn Gymraeg.
We welcome telephone calls, emails and written communication in Welsh.

Mae'r Tîm Ansawdd a Gwella Gwasanaeth yn cofnodi pob cwyn a gawn er mwyn i ni fedru dysgu yn sgil hynny. Os anfonwch gŵyn atom gan ddweud wrthym yr hoffech i ni gysylltu â chi, byddwn yn cydnabod hynny cyn pen tri diwrnod ers derbyn eich cwyn, er mwyn i chi wybod ein bod wedi ei derbyn a'i chofnodi.

Asesiad cychwynnol

I ddechrau, bydd unrhyw gŵyn a gyflwynwch yn erbyn y DG/SID/NEDs yn cael ei hanfon ymlaen at Bennaeth y Grŵp Swyddfa Breifat. Bydd Pennaeth y Grŵp Swyddfa Breifat yn asesu'ch cwyn a'i hanfon ymlaen at yr unigolyn perthnasol yn unol â'r hyn a amlinellir isod:

- bydd cwynion yn erbyn y DG yn cael eu trin gan yr SID
- bydd cwynion yn erbyn yr SID yn cael eu trin gan y DG
- bydd cwynion yn erbyn NED yn cael eu trin gan yr SID¹

Bydd yr asesiad cychwynnol yn amlinellu cefndir eich cwyn ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Bydd hefyd yn penderfynu a ddylid ymdrin ag unrhyw faterion yn ymwneud â pherfformiad neu ymddygiad. Efallai y byddwn yn gofyn rhagor o wybodaeth i chi er mwyn ein helpu i gwblhau'r asesiad hwn.

Bydd hefyd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn ag a ddylid hysbysu'r sawl sy'n destun y gŵyn, ar yr adeg hon². Gall Pennaeth y Grŵp Swyddfa Breifat geisio cyngor gan ein tîm cyfreithiol ar yr adeg hon os bydd angen.

Dylid darparu'r asesiad cychwynnol cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl derbyn y gŵyn. Mewn amgylchiadau eithriadol – os bydd yr achos yn un cymhleth er enghraifft – gallai hyn gymryd mwy o amser.

Penderfynu ar y gwaith o ymdrin

Bydd y DG/SID yn adolygu'r deunydd ac yn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd. Mae'r opsiynau'n cynnwys:

- gofyn am fwy o wybodaeth er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad
- penderfynu na ddylid gweithredu ymhellach
- penderfynu ymchwilio'r gŵyn
- penderfynu ar weithred benodol (er enghraifft, ymddiheuro, gweithredu er mwyn ymdrin â mater penodol, ac ati)

¹ Pan gyflwynir cwynion yn erbyn cyfuniad o DG/SID neu SID/NEDs, gwneir trefniadau addas i sicrhau y delir yn effeithiol â'r cwynion hyn.

² Byddai hyn yn gam arferol oni bai bod y gŵyn wedi amlygu materion o ymddygiad mor ddifrifol nes y penderfynir na fyddai'n addas gwneud hynny yn y cyfnod cynnar hwn (er enghraifft, gallai rhoi gwybod iddynt eu galluogi i gloffi ymchwiliad cywir o'r gŵyn).

Bydd y DG/SID yn ystyried hefyd a yw'n briodol i ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg³.

Pan ofynnir am fwy o wybodaeth, bydd Pennaeth y Grŵp Swyddfa Breifat yn ei darparu.

Os na fydd unrhyw weithredu pellach, bydd Pennaeth y Grŵp Swyddfa Breifat yn ysgrifennu atoch yn rhoi gwybod ichi am y canlyniad.

Ymchwiliad

Pan fydd y DG/SID yn penderfynu bod eich cwyn yn codi mater yn ymwneud ag ymddygiad sydd angen ei ymchwilio, yna bydd ef neu hi yn penodi ymchwilydd annibynnol (y tu allan i'r IOPC) sydd â'r arbenigedd perthnasol. Yn y cyfnod hwn, dylai'r DG/SID ystyried hefyd a ddylid sicrhau bod y Swyddfa Gartref yn ymwybodol o'ch cwyn a'r ymchwiliad dilynol.

Dylai pob ymchwiliad fod yn effeithiol, teg, diduedd, amserol ac yn gymesur. Ei ddibenion yw:

- sefydlu'r ffeithiau ynglŷn â'ch cwyn, ac eithrio unrhyw asesiad o gamymddwyn posib, i benderfynu a ddylid cadarnhau eich cwyn neu beidio
- penderfynu a oes achos i'w ateb⁴ o ran unrhyw honiadau o gamymddwyn (wrth bwysu a mesur y tebygolrwydd)
- ble ceir achos i'w ateb am gamymddwyn, i benderfynu a ddylid ystyried y camymddwyn fel mater difrifol⁵

Fel cam cyntaf, dylai'r ymchwilydd sicrhau bod ef neu hi wedi cael manylion llawn eich cwyn.

Dylai'r ymchwilydd ysgrifennu atoch, gan roi gwybod i chi bod ef neu hi wedi ei benodi i ymchwilio'ch cwyn. Dylai'r ymchwilydd geisio trefnu cyfweiliad â chi, os yw'n angenrheidiol gwneud hynny. Efallai na fydd cyfweiliad yn angenrheidiol os bydd yr ymchwilydd yn penderfynu bod ganddo ddigon o wybodaeth.

Bydd yr ymchwilydd yn rhoi gwybod hefyd i'r sawl sy'n destun y gŵyn beth yw natur y gŵyn honno. Petai hynny yn creu rhagfarn yn yr ymchwiliad, dylid rhoi gwybod

³ Bydd rhai achosion pan ystyrir hyn yn gam priodol yn sgil natur benodol y gŵyn.

⁴ Golyga achos i'w ateb fod yna ddigon o dystiolaeth i olygu y gallai penderfynwr ar wrandawriad camymddwyn a arweinir yn gywir, wrth bwysu a mesur y tebygolrwydd, ddod i'r casgliad bod unigolyn wedi camymddwyn.

⁵ Ystyr 'camymddwyn difrifol' yn y cyd-destun hwn yw camymddwyn mor ddifrifol nes y gallai, os caiff ei brofi, gyfiawnhau bod yr IOPC, DG, SID neu NED yn ymddiswyddo o'u swyddi gyda'r IOPC.

hefyd i'r sawl sy'n destun y gŵyn cyn gynted â phosibl. Dylai'r ymchwilydd hefyd drefnu amser i gyfweld yr unigolyn sy'n destun y gŵyn, neu ofyn iddo ef neu hi ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r gŵyn honno.

Bydd yr ymchwilydd yn trefnu hefyd i gasglu unrhyw dystiolaeth arall sy'n angenrheidiol er dibenion yr ymchwiliad, a allai gynnwys cyfweld tystion.

Bydd yr ymchwilydd yn cadw cofnod o'r holl dystiolaeth a'r ohebiaeth. Dylai'r ymchwilydd ofyn i'r rhai sy'n cael eu cyfweld i gadarnhau'r cofnod o'r hyn a ddywedwyd.

Dylai'r ymchwilydd sicrhau eich bod chi a'r unigolyn sy'n destun y gŵyn yn cael eich diweddarau'n gyson drwy'r broses.

Pan fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, bydd yr ymchwilydd yn cyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r DG/SID. Dylai'r adroddiad roi crynodeb o'r gŵyn, yr ymchwiliad a'r canfyddiadau o'r ffeithiau (ac eithrio unrhyw ganfyddiadau ar ffeithiau y dylid eu trosglwyddo i unrhyw broses o gamymddwyn ddilynol). Dylai'r adroddiad hefyd gynnwys argymhellion rhesymol ynglŷn ag a oes gan y sawl sy'n destun y gŵyn achos i'w ateb am gamymddwyn ac, os felly, a fyddai hynny'n cael ei ystyried yn ddifrifol petai'n cael ei brofi.

Penderfynu ar y canlyniad

Dylai'r DG/SID adolygu adroddiad yr ymchwilydd a phenderfynu a yw ef neu hi yn derbyn y canfyddiadau ynddo. Bydd y DG/SID yn rhoi sylw i ganfyddiadau'r ymchwilydd, ond bydd yn gwneud asesiad annibynnol o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad. Bydd yn penderfynu a ddylid cadarnhau eich cwyn neu beidio. Os caiff ei gadarnhau, bydd yn rhoi ei farn ynglŷn ag a oes gan y sawl sy'n destun y gŵyn achos i'w ateb am gamymddwyn ac, os felly, a fyddai hynny'n cael ei ystyried yn ddifrifol petai'n cael ei brofi.

Dylai'r DG/SID eich hysbysu chi a'r sawl sy'n destun y gŵyn ynglŷn â chanlyniad yr ymchwiliad. Os oes gan y sawl sy'n destun y gŵyn achos i'w ateb, yna bydd y DG/SID yn cysylltu â'r swyddfa gartref i roi gwybod iddynt am ganlyniad yr ymchwiliad ac i drafod y camau nesaf priodol.

Cwynion a gadarnheir

Gellir cadarnhau cwynion gyda neu heb ganfyddiad o gamymddwyn.

Pan gaiff cwynion eu cadarnhau mewn achos o gamymddwyn, cynhelir trafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref ynglŷn â'r camau nesaf.

Hawl i apelio

Nid oes gennych hawl i apelio yn ystod unrhyw gam o'r broses.

Cofnodi data ar gwynion

Bydd y Tîm Ansawdd a Gwella Gwasanaeth yn cofnodi manylion a chanlyniadau'r cwynion a wnaed yn erbyn y DG/SID/NEDs oni bai bod angen cadw'r wybodaeth yn rhywle arall.

Sut mae'r polisi hwn yn cysylltu â'n polisiâu a'n deddfwriaethau eraill

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

Safonau Defnyddwyr Gwasanaeth yr IOPC

Rhoi Adborth a Chwyno am yr IOPC

Polisi Gwneud Addasiadau Rhesymol

Polisi Rheoli Cyswllt â Chwsmeriaid

Mae ein rhybudd preifatrwydd a'r wybodaeth atodol ar gael ar ein gwefan www.policeconduct.gov.uk/privacynotice